

CYNHADLEDD I FUDD-DDEILIAID

LLEOL: **MAPIO TLODI BWYD**

21 Mawrth 2016 – 09:45-15:00
Thoday, Prifysgol Bangor

Cynhadledd undydd yw hon a hwylusir gan y brifysgol i gyfnewid gwybodaeth a barn ar y cynnydd presennol mewn defnyddio banciau bwyd, materion sy'n codi o ganlyniad i hynny a gwelliannau y gellir eu gwneud at y dyfodol.

Bydd y siaradwyr yn cynnwys Hywel Williams, AS Arfon a'r Deon Kathy Jones o Eglwys Gadeiriol Bangor.

Bydd rhannu gwybodaeth am fapio banciau bwyd yng Nghymru yn dangos tuedd sy'n destun pryder cynyddol gan hwyluso trafodaeth ar y rhesymau dros hyn ac atebion posibl i'r broblem.

Yn y gweithdy i fudd-ddeiliaid ceir cyfraniadau gan nifer o drefnwyr lleol banciau bwyd a fydd yn rhoi tystiolaeth o brofiadau go iawn o dlodi bwyd i hysbysu gwneuthurwyr polisi a grwpiau gwleidyddol ar lefel leol a chenedlaethol yng Nghymru, er mwyn datblygu ymatebion priodol a chynaliadwy i'r angen cynyddol am wasanaethau darparu bwyd.

I gael gwybodaeth bellach cysylltwch â:
David Beck: d.j.beck@bangor.ac.uk neu
Dr. Eifiona Thomas Lane: eifiona.thomaslane@bangor.ac.uk
ARCHEBWCH LE drwy Eventbrite: Chwiliwch 'Mapping Food Poverty'.

Mae'r gynhadledd hon yn fenter ar y cyd rhwng dwy ysgol ym Mhrifysgol Bangor: Ysgol yr Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth a'r Ysgol Gwyddorau Cymdeithas.



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

adnodd

CYNHADLEDD I FUDD-DDEILIAID

LLEOL:

MAPIO TLODI BWYD

21 Mawrth 2016 – 09:45-15:00

Rhaglen Ddrafft

- 09:45 Cofrestru
10:00 Cyflwyniad i'r Gynhadledd – Yr Is-ganghellor/Gerry Hunter
10:20 Gwleidyddoli Tlodi Bwyd – Hywel Williams
10:30 Tlodi a Chymdogaeth Gogledd Cymru – Hefin Gwilym
10:50 Mapio Tlodi Bwyd yng Nghymru – Dave Beck ac Ian Harris
11:10 Siarter Bwyd a Pholisi Cymru – Eifiona Thomas Lane
11:20 COFFI
11:30 MonCF – Carl Owen
11:40 Banc Bwyd yr Eglwys Gadeiriol - Deon Kathy Jones
11:50 Mosg Bangor – i'w gadarnhau
12:00 Datblygu - Oxfam i'w gadarnhau
12:20 Profiad Lleol o Dlodi – GISDA
12:30 Newidiadau yn y dyfodol – CAB Môn
12:40 Iechyd a lles – Cerys Humphreys
13:00 CINIO a SGWRS AR PONTIO
14:00 Grwpiau tasg wedi'u hwyluso – Arwel Jones
14:30 Sylwadau gan y grwpiau
15:00 Diwedd y gynhadledd



Cynhelir sesiynau'r bore yn G23 a rhai'r prynhawn yn F1, ill dwy yn Adeilad Thoday, Ffordd Deiniol, Bangor LL57 2UW. Bydd cofrestru'n digwydd yn y cyntedd.



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

adnodd